# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11146

# 314(v4)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf rhithwir, gyda'r Aelodau yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

Dechreuodd yr eitem am 14.37

Gofynnwyd y 5 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 2 a 3 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd.

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.52

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Strategaeth frechu COVID-19

Dechreuodd yr eitem am 15.19

## 5 Dadl ar Ddatganiad: Cyllideb Ddrafft 2021-2022

Dechreuodd yr eitem am 16.02

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

Dechreuodd yr eitem am 16.58

**NDM7538** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NDM7534, NDM7535 ac NDM7537 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 12 Ionawr 2021.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Yn unol â Rheol Sefydlog 12.24, cafodd eitemau 6-9 eu grwpio ar gyfer dadl, ond gyda phleidleisiau ar wahân.

## 6 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.59

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7536** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 3 | 3 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 7 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.59

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7534** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 3 | 3 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 8 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.59

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7537** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Rhagfyr 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 3 | 3 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 9 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.59

**NDM7535** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Rhagfyr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021

Dechreuodd yr eitem am 17.25

**NDM7533** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

Dechreuodd yr eitem am 17.28

**NDM7540** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NDM7541 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 12 Ionawr 2021.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach

Dechreuodd yr eitem am 17.28

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7541** Jeremy Miles (Castell-nedd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Masnach, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Ebrill 2020, 4 Tachwedd 2020 a 11 Ionawr 2021 yn y drefn honno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Masnach y DU (Saesneg yn unig)

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 9 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 12 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol

**Dechreuodd yr eitem am 18.01**

**NDM7542** Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Gorffennaf a 2 Rhagfyr 2020, yn y drefn honno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol (Saesneg yn unig)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 13 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 18.13 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Llywydd i ganiatáu egwyl cyn y Cyfnod Pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 18.20

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 18.23

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 13 Ionawr 2021**